1 Cwr y Ddinas/ 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy

**Cyfeirnod:** AC544/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 9 Mawrth 2026

Annwyl Paul

# Cyfrifon Statudol Cyngor Sir Fynwy: Cynllun Cyflawni a'r Camau Nesaf

Rwy'n ysgrifennu atoch chi, a phob Prif Weithredwr llywodraeth leol, i ofyn am eich cymorth a'ch cefnogaeth.

Mae cyfrifon statudol o ansawdd uchel yn hanfodol i ymddiriedaeth y cyhoedd, llywodraethu effeithiol a chynaliadwyedd ariannol. Rwy'n falch o'n record yng Nghymru o ran cyflwyno'r cyfrifon hynny mewn modd amserol. Diolch i gydweithwyr ar draws y sector, rydym hyd yma wedi llwyddo i osgoi'r oedi eang a sylweddol wrth gyflwyno cyfrifon archwiliedig a brofwyd gan y sector llywodraeth leol yn Lloegr. Mae'r oedi hynny'n gostus ac yn anodd ei gywiro, a bu’n ffactor sy'n cyfrannu at fethu â mynd i'r afael â dirywiad ariannol rhai awdurdodau yn Lloegr.

Fodd bynnag, rwy'n fwyfwy pryderus bod ein sefyllfa yng Nghymru yn gwaethygu. Hoffwn wrthdroi'r dirywiad hwnnw fel mater o frys.

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ac yng Nghyngor Sir Fynwy (y Cyngor) yn benodol. Mae hefyd yn nodi'r hyn rwy'n ei ofyn gennych a sut y bydd Archwilio Cymru yn gweithio gyda chi a'ch tîm.

Mae cyfrifon amserol o ansawdd uchel yn ffenestr hanfodol i'r cyhoedd, cynghorwyr, y Senedd, Llywodraeth Cymru ac eraill i stiwardiaeth ariannol a'r defnydd o arian cyhoeddus. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn croesawu'r dull hwn ac yn rhannu fy awydd i weithredu. Os hoffech drafod unrhyw agwedd gyda mi yn uniongyrchol, mae croeso i chi gysylltu â mi.

## Y cyd-destun ehangach

Rwyf wedi ysgrifennu at bob cyngor a chyrff cyhoeddus eraill yn flaenorol i bwysleisio pwysigrwydd cynhyrchu cyfrifon ar amser ac i safon uchel. Yn fy llythyrau, nodais yr oedi wrth gyflwyno cyfrifon i'w harchwilio a'r problemau ansawdd a oedd wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf a ddeilliodd o nifer o ffactorau, gan gynnwys Pandemig COVID-19. Nodais amserlen y cytunwyd arni ar gyfer cael cyfrifon ar draws Sector Cyhoeddus Cymru yn ôl ar y trywydd iawn. Mewn Llywodraeth Leol, yr uchelgais oedd symud, erbyn 2026, i derfyn amser o 30 Mehefin bob blwyddyn ar gyfer cyflwyno cyfrifon Llywodraeth Leol i'w harchwilio a 30 Medi ar gyfer cwblhau archwiliad.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gydweithio'n agos â Thimau Cyllid lleol mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru, rydym wedi gweld rhywfaint o welliant yn ansawdd a chyflwyniad amserol cyfrifon yn y Llywodraeth Ganolog a'r GIG. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa mewn Llywodraeth Leol yn dirywio.

Drwy gyd-destun:

- Dim ond **18 o gyrff llywodraeth leol (56%)** a gyflawnodd derfyn amser Llywodraeth Cymru, sef **30 Mehefin 2025**, ar gyfer cyfrifon 2024–25 (gostyngiad o 21 o gyrff (66%) yn 2023–24 a 22 o gyrff (68%) yn 2022–23).
- Erbyn **31 Hydref 2025**, dim ond **9 o 22** awdurdod unedol, **3 o 4** awdurdod heddlu a **3 o 3** awdurdod tân oedd wedi'u hardystio ar amser. Ni chafodd unrhyw awdurdodau parciau cenedlaethol eu hardystio erbyn y terfyn amser.

Pwysleisiwyd ymhellach y risgiau o oedi wrth gyflwyno cyfrifon Llywodraeth Leol yn amserol ac o ran eu hansawdd ym mis Tachwedd 2025 pan ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at Lywodraeth Cymru yn nodi ei bryderon ac yn gofyn pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â chapasiti, cynllunio ar gyfer olyniaeth, a recriwtio staff o fewn timau cyllid awdurdodau lleol.

Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth Cymru yr heriau a oedd wedi cyfrannu at y pryderon a nodwyd ac yn amlinellu'r bwriad cyffredin i ddychwelyd i'r terfyn amser o 30 Mehefin ar gyfer cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Leol i'w harchwilio, a 31 Hydref ar gyfer cwblhau'r archwiliad (30 Medi ar gyfer cyfrifon 25-26).

## Y sefyllfa yng Nghyngor Sir Fynwy

Mae'n bleser nodi bod y Cyngor yn parhau i gyflwyno cyfrifon amserol, cywir ac o ansawdd uchel. Darperir cyfrifon drafft a phapurau gwaith cynhwysfawr ar amser ac fel arfer ymatebir i ymholiadau archwilio yn brydlon. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y tîm cyllid a'r

Cyngor ehangach, ac mae hyn wedi cefnogi ein gwaith o gyflawni archwiliadau. Diolch i chi am eich cefnogaeth yn hyn o beth.

Fodd bynnag, mae'r cyd-destun ehangach ar draws Llywodraeth Leol yn dangos pwysau cynyddol ar gynhyrchu cyfrifon yn amserol, gydag oedi a phroblemau ansawdd yn dod yn fwy cyffredin. Mae'r heriau hyn ar draws y sector yn tanlinellu pwysigrwydd y Cyngor yn cynnal ei ddull cryf wrth i ffenestri archwilio barhau i leihau.

Er bod y Cyngor wedi bodloni ei derfynau amser ar gyfer 2024-25 unwaith eto, roedd nifer bach o faterion a gododd yn ystod y ffenestr archwilio yr oedd angen amser i'w datrys. Er bod y materion hyn wedi cael eu datrys yn y pen draw heb effeithio ar ein gallu i gwblhau'r archwiliad erbyn y terfyn amser statudol, gallai materion tebyg sy'n codi yn 2025–26, pan fydd llawer llai o hyblygrwydd yn amserlen yr archwiliad, beryglu'r terfyn amser o 30 Medi.

## Yr hyn rwyf yn gofyn i chi ei wneud

Gofynnaf i'r Cyngor barhau i flaenoriaethu cynhyrchu cyfrifon amserol o ansawdd uchel wedi'u hategu gan drefniadau sicrhau ansawdd cadarn a pharhau i weithio'n agos gyda fy nhîm archwilio i gyflawni terfynau amser y sector ar **30 Mehefin** (paratoi) a **30 Medi** (cwblhau'r archwiliad).

## Ein hymrwymiadau

Byddwn yn parhau i weithio gyda chi yn lleol ac ar draws y sector i wella amseroldeb ac ansawdd. Yn Archwilio Cymru, mae hyn yn parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau allweddol a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chi yn y ffordd sy'n cefnogi hyn orau.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r canlynol:

- **Cymdeithas Trysoryddion Cymru (grŵp gweithredol a grŵp llawn)** – i gytuno ar ddyddiadau allweddol, datblygiadau strategol a materion;
- **Grŵp y Prif Gyfrifwyr** – i ddarparu adborth a chymorth gweithredol manwl;
- **Grwpiau Cadeiryddion Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cymru Gyfan** – i gynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau Archwilio Cymru;
- **Eich timau'n lleol** – i sicrhau bod problemau'n cael eu nodi a'u datrys yn brydlon.

Yn ddiweddar, gwnaethom hwyluso digwyddiad arfer da — *Gweithio gyda'n gilydd i gyflwyno cyfrifon llywodraeth leol o ansawdd ac amserol* — a fynychwyd gan nifer dda iawn o bobl, ac

a oedd yn canolbwyntio ar sut y gall cydweithio gryfhau atebolrwydd a chyflawni gwelliant parhaol. Roedd hefyd yn annog model cynaliadwy, mwy hirdymor ar gyfer hyder mewn rheolaeth ariannol, gan gynnwys:

- **Gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru:** fel cenedl fach gallwn rannu adnoddau ac arbenigedd. Rydym yn cefnogi ymdrechion arloesi i ddatrys y materion sy'n ein hwynebu a byddwn yn parhau i fonitro eu datblygiad yn ofalus.
- **Buddsoddi mewn systemau:** mae systemau ariannol modern, integredig yn hanfodol i wella amseroldeb a chywirdeb ac i ddatgloi defnydd gwell o ddadansoddeg data.

## Yr hyn a fydd yn hanfodol gan y Cyngor

Er mwyn bodloni'r terfynau amser, bydd yn hanfodol:

- bod **y cyfrifon drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** yn parhau i gael eu darparu unol â'r amserlen y cytunwyd arni;
- bod **y cyfrifon yn parhau i fod o ansawdd uchel adeg eu cyflwyno;**
- bod **papurau gwaith cynhwysfawr** yn parhau i fod ar gael ar ddechrau'r archwiliad a'u bod wedi'u hasesu o ran ansawdd;
- bod **staff priodol ar gael drwy gydol y ffenestr archwilio** i ddatrys ymholiadau'n brydlon.

Rwy'n cydnabod heriau ariannol a chapasiti'r Cyngor ac yn gwerthfawrogi ymrwymiad a chydweithrediad chi a'ch tîm. Byddwn yn parhau i chwarae ein rhan a gweithio'n agos gyda chi i fodloni terfynau amser ein cyfrifon ac archwiliadau ar gyfer 2025-26.

Edrychwn ymlaen at adeiladu ar ein cydberthnasau gwaith rhagorol gyda'r Cyngor, a byddwn yn rhoi gwybod i chi'n rheolaidd am gynnydd archwiliadau yn y dyfodol ac unrhyw faterion ynghylch cost neu amseru cyn gynted ag y byddant yn hysbys.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**